



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Care in Hands

**Laurel House
Wooden
Saundersfoot
SA69 9DY**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

04/07/2023

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i:

psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Care in Hands

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cymorth Cartref
Darparwr Cofrestredig	Care in Hands Ltd
Lleoedd cofrestredig	0
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	25 Ionawr 2022
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.

Crynodeb

Mae'r bobl yn hapus iawn gyda'r gofal y maent yn ei gael, sy'n eu galluogi i barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain. Caiff yr unigolion eu cefnogi gan staff medrus a phrofiadol, y maent wedi meithrin cydberthynas werthfawr â nhw. Mae'r bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn llawn mewn penderfyniadau am eu gofal.

Mae'r rheolwr yn arwain tîm o uwch-aelodau o staff, sy'n ei helpu i redeg y gwasanaeth. Dywed y bobl fod y rheolwyr yn gefnogol, yn barod eu cymwynas ac yn dangos dealltwriaeth; dywedodd un gweithiwr gofal wrthym *"They are a great company to work for, very helpful and they are there for us"*. Nid oedd gan y gwasanaeth Unigolyn Cyfrifol ar adeg yr arolygiad. Fodd bynnag, mae trefniadau da ar waith i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth.

Llesiant

Mae'r bobl yn cael cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac yn canolbwyntio hefyd ar yr hyn sy'n bwysig iddynt. Mae'r rheolwr yn cynnwys gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol er mwyn helpu'r bobl i gadw mor annibynnol ac iach â phosibl yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r bobl yn cael eu cynnwys wrth ddatblygu ac adolygu eu cynlluniau personol, er mwy sicrhau eu bod yn parhau'n gywir ac yn werth chweil. Dywedodd un person wrthym *"We get along well with the carers, they are very helpful"*. Mae'r gweithwyr gofal medrus a phrofiadol yn angerddol am y bobl y maent yn eu cefnogi a dywedodd un ohonynt *"I love the service users I visit"*. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg, sy'n golygu y gall y bobl gyfathrebu yn Gymraeg neu Saesneg fel y mynnant.

Caiff y bobl eu diogelu rhag niwed gan fod y prosesau recriwtio a hyfforddi yn sicrhau eu bod yn cael y gofal cywir. Mae'r gweithwyr cymorth yn cael sesiynau sefydlu a chyfleoedd datblygu parhaus ac maent wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r staff yn diogelu'r bobl rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso ac maent yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau i godi pryderon.

Nid oedd gan y gwasanaeth Unigolyn Cyfrifol ar adeg yr arolygiad ond mae trefniadau effeithiol ar waith i gyflawni swyddogaethau'r swydd wag hon. Mae gan y bobl lais am eu bod yn cael eu cynnwys mewn archwiliadau ansawdd mewnol. Caiff y wybodaeth hon ei chofnodi a chaiff camau gweithredu eu trafod gyda'r tîm o uwch-reolwyr a'u defnyddio i lywio'r Adolygiad o Ansawdd y Gofal a gynhelir bob chwe mis.

Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn gadarnhaol iawn am y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael, i fyw mor annibynnol â phosibl yn eu cartrefi eu hunain. Dywedodd y bobl wrthym *"I'd be lost without them, they are wonderful"* a *"Everyone in my opinion are fantastic, I thank God I've got them"*. Caiff y staff eu harwain gan gynlluniau electronig effeithiol a chywir. Mae'r gweithwyr cymorth wedi rhoi o'u hamser i ddod i adnabod y bobl yn dda ac i ddeall eu hanghenion, a dywedasant wrthym *"I love the people I support and help them with what they need"* ac *"it's so fulfilling when you can help people to feel better"*. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cael yr un gweithwyr gofal fel arfer ond eu bod yn deall y rhesymau pam mae pethau'n newid a byddant yn cael gwybod bob amser os bydd eu gofal sydd wedi'i gynllunio yn wahanol. Wrth drafod parhad gofal, dywedodd gweithiwr wrthym *"Having a familiar run is good for the clients and the staff because we get to know each other so well"*.

Mae'r bobl yn cael eu cynnwys wrth ddatblygu eu cynlluniau personol cynhwysfawr eu hunain, sy'n canolbwyntio ar yr hyn y maent am ei gyflawni. Mae'r uwch-aelodau o'r staff hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr a gweithwyr gofal unigolyn er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gywir, yn ddefnyddiol ac yn gyfredol. Wrth drafod y cynlluniau personol electronig, dywedodd gweithiwr gofal wrthym, *"The plans on the phones are helpful and we know what's going on and can phone the office if things need to be changed"*. Mae'r nodiadau dyddiol yn cofnodi'r gofal a'r cymorth a roddwyd.

Mae'r gwasanaeth yn wynebu'r un heriau â llawer yn y sector o ran cadw a recriwtio staff. Mae niferoedd digonol o staff medrus ar gael i ddiwallu anghenion y bobl a chaiff unrhyw newidiadau i ofal wedi'i gynllunio'r bobl eu trafod â nhw. Mae llawer o'r staff wedi gweithio yn y gwasanaeth ers blynnyddoedd ac wedi meithrin cydberthynas dda â'r bobl. Dywedodd gweithiwr gofal wrthym *"They (people) are all different and have their own ways and I enjoy working with them"*.

Mae gan y darparwr Ddatganiad o Ddiben a Chanllaw i Ddefnyddiwr y Gwasanaeth cyfredol, sydd ar gael i'r bobl a/neu eu cynrychiolwyr.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Nid oedd gan y darparwr Unigolyn Cyfrifol ar adeg yr arolygiad. Fodd bynnag, mae ganddo drefniadau dros dro effeithiol ar waith ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth. Cwblhawyd yr ymweliad Rheoliad 73 diwethaf ym mis Ebrill 2023, ac mae'r adroddiad dilynol ar yr ymweliad yn dangos yr ymgynghorir â'r bobl a'r staff. Caiff yr holl gamau y mae angen eu cymryd i wella'r gwasanaeth eu trafod â'r Tîm Uwch-reolwyr bob mis. Mae'r Adolygiad o Ansawdd Gofal a gynhelir bob chwe mis yn defnyddio adborth gan y bobl, eu cynrychiolwyr, a gwybodaeth o archwiliadau mewnol.

Cefnogir rheolwr y gwasanaeth gan dîm o reolwyr ardal, goruchwylwyr a swyddogion sicrhau ansawdd. Mae gan y bobl a'u cynrychiolwyr ymddiriedaeth a ffydd yn y rheolwr ardal a dywedodd unigolyn wrthym *"I have a lot of confidence in her (area manager) and she asks me to call if we have any worries"*. Mae'r gweithwyr gofal hefyd yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a'r arweiniad gan y rheolwr ardal a dywedodd un *"I have a very helpful manager and they are always there for us, I can phone them with any concerns"*. Mae gan y rheolwr gwasanaeth systemau effeithiol ar waith i sicrhau bod ffeiliau a dogfennaeth electronig yn gyfredol ac o fudd i'r staff.

Mae'r staff yn cael sesiynau goruchwyllo ac arfarniadau rheolaidd, lle y gallant drafod unrhyw faterion y maent yn dymuno siarad amdanynt. Wrth drafod goruchwyliaeth, dywedodd gweithiwr wrthym *"It's very helpful and I can raise any concerns"*. Cynhelir gwiriadau ansawdd dirybudd yng nghartrefi'r bobl er mwyn sicrhau y caiff safonau eu cyrraedd yn gyson. Dywedodd gweithiwr gofal wrthym *"the spot checks help us to make sure we do our best and maintain standards"*. Mae trafodaethau gyda'r staff yn dangos dealltwriaeth dda o adrodd am bryderon a diogelu. Mae gweithdrefnau ar waith i gefnogi arferion da, ac mae gan y staff ddealltwriaeth ddigonol o bolisiâu allweddol.

Cynhelir gwiriadau cyn cyflogi cyn i gyflogeion newydd ddechrau gweithio. Mae'r rhain yn cynnwys gwirio geirdaon, gwirio'r hawl i weithio a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Caiff staff newydd gyfnod sefydlu trylwyr ac maent yn dod i adnabod y bobl cyn iddynt weithio'n annibynnol. Mae rheolwr y gwasanaeth yn sicrhau bod y gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant gorfodol parhaus cyson a hyfforddiant sy'n benodol i'r unigolyn er mwyn ddiwallu anghenion y bobl. Mae mwyafrif y gweithwyr cymorth wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru ac wedi meithrin sgiliau drwy gymwysterau proffesiynol.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

Dyddiad Cyhoeddi 22/08/2023